

ROYAL PHARMACEUTICAL SOCIETY

Wales Cymru

Dr Dai Lloyd AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

19 Mai 2020

Annwyl Dr Lloyd

Ymateb Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Cymru i Ymchwiliad Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon Senedd Cymru i effaith achosion Covid-19, a'i reolaeth, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru

Diolch am y cyfle diweddar i gyfrannu tystiolaeth lafar i ymchwiliad y Pwyllgor i'r achosion o COVID-19. Fel y corff proffesiynol sy'n cynrychioli fferyllwyr ar draws pob sector gofal iechyd, rydym yn falch o ddilyn hyn gyda thystiolaeth ysgrifenedig gefnogol. Yn y cyflwyniad hwn rydym yn ystyried profiad fferylliaeth o ddelio â phandemig COVID-19 hyd yma ac yn tynnu sylw at bwyntiau dysgu allweddol ac argymhellion ar gyfer gweithredu yn y dyfodol gan Lywodraeth Cymru a GIG Cymru.

Pwyntiau allweddol:

Mae pandemig COVID-19 wedi atgyfnerthu'r angen am:

- Gydabod bod fferyllwyr yn hanfodol ac yn sylfaenol ar draws pob sector iechyd a gofal cymdeithasol yn y cynllunio wrth gefn cenedlaethol o'r cychwyn cyntaf a thrwy gydol pob cyfnod pontio yn ystod unrhyw argyfwng iechyd cyhoeddus
- Digido ar frys mewn gwasanaethau fferyllol gan gynnwys yr angen am fynediad darllen ac ysgrifennu at gofnodion cleifion a rennir a datblygu datrysiad presgripsiynu electronig cadarn ledled Cymru.
- Galluogi fferyllwyr i reoli prinder meddyginiaethau trwy newid deddfwriaethol sy'n caniatáu i fferyllwyr ddefnyddio eu barn broffesiynol i wneud mân newidiadau i bresgripsiynau pe bai meddyginiaeth allan o stoc.
- Mynediad rheolaidd parhaus i wasanaethau ac adnoddau i gefnogi iechyd meddwl a lles pob tîm fferyllol yn unol â grwpiau gweithwyr iechyd proffesiynol eraill. Dylid cael tegwch ar i bob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Ymrwymiad fferylliaeth i ofal cleifion yn ystod achosion COVID-19

1. Rydym yn falch o ymrwymiad cadarn y proffesiwn fferyllol ar draws pob sector i gynnal y modd y darperir gofal a chyflenwi meddyginiaethau yn ystod y pandemig. Mae'r proffesiwn wedi ymateb i'r her o gynyddu llwythi gwaith ac mae dulliau arloesol o ddylunio gwasanaethau wedi'u canfod a'u gweithredu'n gyflym i sicrhau parhad gofal. Mae cydweithredu ymhlith timau fferylliaeth ar draws gwahanol ardaloedd a gyda grwpiau proffesiynol eraill hefyd wedi bod yn ysbrydoledig.

2. Fel corff aelodaeth sy'n cynrychioli pob sector o fferylliaeth, gwnaeth y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol benderfyniad strategol yn gynnar yn y pandemig i ddefnyddio'r holl adnoddau ariannol a dynol i gefnogi'r proffesiwn ledled Prydain Fawr i ymdopi â'r heriau digynsail o ddelio â'r pandemig hwn.

Cydnabyddiaeth y llywodraeth o dimau fferyllol

3. Rydym yn cydnabod yr her sylweddol y mae Llywodraeth Cymru yn ei hwynebu wrth arwain a chydlynu'r dull o ymdrin â COVID-19 ar draws y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Hyd yn hyn, rydym wedi croesawu'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi timau fferylliaeth. Mae'r gallu i gyflwyno oriau agor hyblyg, er enghraifft, wedi'i groesawu'n arbennig mewn fferylliaeth gymunedol. Mae hyn wedi sicrhau'r amser sydd ei angen ar gyfer seibiant critigol rhag pwysau uniongyrchol wrth wynebu cleifion, i wneud gwaith clinigol heb ymyrraeth ac i flaenoriaethu'r cleifion mwyaf bregus. Mae llacio rhwymedigaethau cytundebol wedi cael croeso mawr gan fferylliaeth gymunedol wrth ymdopi â'r cynnydd yn y galw.
4. Mae llawer iawn o waith wedi'i wneud ar draws y GIG gan weithwyr proffesiynol fferyllol mewn ymateb i'r Pandemig COVID-19 ac mae angen cydnabod hynny. Mae hyn yn cynnwys:
 - **Cynnal mynediad at feddyginiaethau hanfodol** ym mhob sector trwy ail-ddylunio prosesau cyflenwi, gweithio gyda chydweithwyr meddygol i newid cleifion i gynhyrchion amgen sy'n gofyn am weinyddiaeth lai aml, a gweithredu mentrau cyflenwi i bobl fregus o'r gymuned ac ysbytai.
 - **Cynllunio a rheoli'r cyflenwad o feddyginiaethau gofal critigol a diwedd oes** gan fod y gofynion wedi cynyddu'n sylweddol ac wrth i'r cyflenwadau leihau: Datblygu modelau gwasanaeth newydd, fframweithiau i gefnogi penderfyniadau proffesiynol moesegol ar gyfer gofal cleifion unigol, a chynnal llywodraethu a chynghor i gefnogi dewisiadau amgen o feddyginiaethau a all fod yn anghyfarwydd i glinigwyr.
 - **Datblygu protocolau lleol** i hyrwyddo a galluogi mynediad at feddyginiaethau trwy dreialon clinigol ar gyfer COVID-19. Dim ond trwy dreialon y mae rhai meddyginiaethau wedi bod ar gael ac mae tystiolaeth yn hanfodol i lywio dewisiadau triniaeth barhaus.
 - **Cynghori ar gyflenwadau ocsigen** a darparu rheolaeth ansawdd i alluogi ehangu isadeileddau'r pibellau ocsigen mewn gofal aciwt.
 - **Cynnal gwasanaethau fferylliaeth glinigol i gleifion gofal aciwt** trwy ddarparu hyfforddiant i dyfu niferoedd fferyllwyr ICU a pharhau i gefnogi gwasanaethau nad ydynt yn rhai COVID.
 - **Gosod a rhedeg fferyllfeydd newydd** a gwasanaethau i ysbytai maes newydd gan ddefnyddio modelau gwasanaeth newydd.
 - **Cynghori ar opsiynau triniaeth** gan ddefnyddio'r dystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael a sicrhau bod llywodraethu da yn cael ei gynnal.
 - **Paratoi aseptig** o feddyginiaethau ar ffurf barod i'w defnyddio ar gyfer gofal aciwt, gan arbed amser cydweithwyr nyrsio a'r anhawster i gyflawni'r dasg hon tra'u bod mewn PPE llawn.
5. Mae wedi bod yn siomedig bod rhai polisiâu pennawd wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru heb y manylion angenrheidiol a gwybodaeth gyfyngedig ar weithredu. Mae cyhoeddi Cynllun Marwolaeth mewn Gwasanaeth Llywodraeth Cymru yn un enghraifft o'r fath. I ddechrau, wrth gyhoeddi'r cynllun hwn, roedd y fferyllwyr ac eraill ar draws y gwasanaeth

iechyd yn edrych am eglurder ynghylch a oedd y cynllun yn berthnasol iddynt a sut. Er bod y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cadarnhau y byddai'r cynllun yn berthnasol i fferylliaeth gymunedol yn dilyn ei gyhoeddi, nid ydym eto wedi gweld na deall manylion y cynllun yn llawn.

6. Rydym wedi clywed gan ein haelodau fferylliaeth gymunedol a gofal sylfaenol am anawsterau sy'n gysylltiedig â diffyg cydnabyddiaeth fel gweithwyr allweddol y GIG. Er ein bod yn cydnabod bod hyn yn anfwriadol, a bod Llywodraeth Cymru yn hollol briodol yn cynnwys fferyllwyr a'u timau fel gweithwyr allweddol, mae peidio â chael ID GIG swyddogol wedi golygu nad yw aelodau tîm fferylliaeth wedi gallu elwa o fentrau cadarnhaol fel mynediad blaenoriaeth i staff rheng flaen y GIG i archfarchnadoedd a thrafnidiaeth gyhoeddus am ddim.
7. Roeddem yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi gweithredu i gyflwyno Cardiau Adnabod ar gyfer cydweithwyr sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol i fynd i'r afael â'r un mater. Byddai cynllun tebyg ar gyfer staff fferylliaeth gymunedol a gofal sylfaenol yn eu helpu i gael mynediad at wasanaethau. Byddai hyn hefyd yn cadarnhau lle timau fferylliaeth gymunedol yn nheulu'r GIG.
8. Er ein bod yn gwerthfawrogi cyflymder y newid wrth ymdopi â'r argyfwng iechyd cyhoeddus hwn, credwn y gellid sicrhau mwy o ymgysylltu pellach rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a chyrrff proffesiynol. Rydym yn falch ein bod wedi elwa o drafodaeth reolaidd gyda'r Prif Swyddog Fferyllol a'r Pennaeth Fferylliaeth a Phresgripsiynu. Mae hyn yn ein galluogi i roi gwybodaeth a sicrwydd gwell i'n haelodau gyda chefnogaeth ac arweiniad proffesiynol priodol. Rydym yn croesawu pob cyfle pellach i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu cronfa eang o farn arbenigol i gyfrannu at, a llunio her adeiladol i, lunio polisïau.

Argymhelliad 1: Rhaid i gynlluniau ar gyfer staff rheng flaen sy'n darparu gwasanaethau'r GIG gynnwys ystyried pob tîm fferylliaeth, gan gynnwys fferylliaeth gymunedol o'r cychwyn cyntaf.

Argymhelliad 2: Dylid sicrhau statws gweithiwr allweddol ar gyfer gweithwyr proffesiynol fferyllol sy'n gweithio ym maes fferylliaeth gymunedol a gofal sylfaenol.

Diogelu timau fferylliaeth

Cyfarpar Diogelu Personol

9. Mae sicrhau bod timau fferylliaeth ym mhob lleoliad yn gallu darparu gwasanaethau heb unrhyw gyfaddawd i'w diogelwch wedi bod yn brif bryder i ni wrth reoli'r achosion o goronafirws, ac mae'n parhau i fod felly.
10. Er y bu amrywiaethau yn ymatebion y llywodraeth i ddsbarthu a darparu PPE ledled y DU, rydym wedi croesawu a llongyfarch Llywodraeth Cymru am ei hymateb i sicrhau bod offer PPE wedi'i gyflenwi i dimau fferylliaeth yn gynnar. Roeddem yn falch bod PPE wedi'i ddsbarthu'n gyflym i bob un o'r 715 o fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru. Mae adborth gan ein haelodau yn awgrymu, yn gyffredinol, bod safon PPE a chyflymder ei ddsbarthu i dimau fferylliaeth wedi diwallu'r angen.
11. Roeddem yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi arwain y ffordd ymhlith cenhedloedd y DU trwy gyflwyno rheoliadau ar bellhau cymdeithasol yn y gweithle. Roedd hwn yn gam i'w groesawu. Yn anffodus, achosodd y canllawiau cysylltiedig rywfaint o ddryswch cychwynnol

ymhlith ein haelodaeth ynglŷn â defnyddio PPE pan na ellid cynnal pellteroedd o 2 fetr. Roedd hyn yn peri pryder gan fod un o'n harolygon diweddar wedi datgelu na allai 94% o ymatebwyr gynnal pellter cymdeithasol o ddau fetr oddi wrth staff eraill yn eu fferyllfa. Roeddem hefyd yn ymwybodol o achosion lle gwnaeth fferyllwyr a'u timau ddal COVID-19, gan amharu ar y cyflenwad o wasanaethau lleol.

12. Rydym yn cefnogi pob ymdrech gan Lywodraeth Cymru i barhau i ddod o hyd i PPE yn rhagweithiol yn rhyngwladol, yn ogystal â chefnogi busnesau Cymru i gynhyrchu stociau. Mae'n galonogol clywed y Gweinidog Iechyd yn cadarnhau bod cael gafael ar PPE yn brif flaenoriaeth iddo.
13. Ar yr adeg pan ellir llacio mesurau clo yn raddol yng Nghymru, gellir disgwyl y bydd nifer yr ymwelwyr mewn fferyllfeydd cymunedol yn tyfu, gan gynyddu'r risg o drosglwyddiad firaol a sicrhau'r angen parhaus am PPE. Dylai anghenion timau fferylliaeth mewn ysbysai hefyd gael eu deall a'u cefnogi yn ystod y cyfnod pontio i wasanaethau ysbyty arferol. Rhaid i'r cyflenwad barhau i ateb y galw yn ystod y cyfnod hwn.

Argymhelliad 3: Mae angen sicrwydd gan Lywodraeth Cymru ynghylch cynlluniau ar gyfer cyflenwi PPE yn barhaus a chanllawiau clir ar gyfer ei ddefnyddio gan dimau fferylliaeth yn ystod y cyfnod pontio a fydd yn cyd-fynd â chodi'r cyfyngiadau clo.

Profion blaenoriaeth COVID-19 i fferyllwyr a'u staff:

14. Mae profi cynnar ar fferyllwyr a'u staff wedi bod yn nodwedd gyson mewn trafodaethau gyda'n haelodau. Rydym yn llwyr gefnogi profion cynnar fel cam hanfodol wrth hwyluso dychwelyd i'r gwaith yn gynnar yn dilyn hunan-ynysu.
15. Rydym wedi bod yn falch o glywed adroddiadau gan ein haelodau bod mynediad at brofion ar gyfer fferyllwyr a thimau wedi cael ei reoli'n effeithlon yn gyffredinol gan Fyrdau Iechyd ledled Cymru. Fodd bynnag, rydym wedi cael gwybod am rywfaint o amrywiad yn yr amser y mae fferyllwyr yn aros i gael eu canlyniadau - weithiau hyd at 5 diwrnod ar ôl y prawf - gan arwain at absenoldeb hir o'r gwaith.

Argymhelliad 4: Dylai profi blaenoriaeth barhau i fod ar gael i fferyllwyr, eu timau a chysylltiadau cartref. Dylai fferyllwyr gael mynediad at brofion gwrthgyrff pan fydd yn cael ei gyflwyno yng Nghymru.

Safiad Cadarn ar Gam-drin

16. Mae fferyllfeydd cymunedol wedi bod yn un o'r ychydig leoliadau gofal iechyd sydd wedi aros ar agor yn gorfforol i'r cyhoedd yn ystod y pandemig. Mae'n siomedig felly bod timau fferylliaeth gymunedol wedi gorfod delio â digwyddiadau o ymddygiad ymosodol ac, mewn rhai achosion, trais gan y cyhoedd.
17. Gwnaethom drosglwyddo ein pryderon ynghylch risgiau ymddygiad ymosodol a threisgar tuag at staff fferylliaeth gymunedol i'r heddluoedd yng Nghymru. Roeddem yn falch iawn gyda'r ymateb cyflym a phendant gan yr heddlu a'u hymrwymiad i gynyddu ymweliadau sicrwydd â fferyllfeydd cymunedol ledled Cymru ar yr adeg heriol hon.
18. Roedd hefyd yn galonogol clywed negeseuon cyhoeddus cadarn gan Lywodraeth Cymru pan ddaeth adroddiadau o gam-drin a thrais tuag at dimau fferylliaeth i'r amlwg. Roedd hyn yn

cynnwys galwadau cyhoeddus am amynedd a pharch tuag at dimau fferyllol gan y Prif Weinidog, y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Prif Swyddog Fferyllol. Rydym yn gywybod bod timau fferylliaeth hefyd wedi gwerthfawrogi'r safiadau cyhoeddus cryf a gymerwyd gan Aelodau Seneddol eraill i annog ymddygiad parchus mewn fferyllfeydd cymunedol.

19. Rydym yn falch bod fferylliaeth gymunedol hefyd wedi ymrwymo i gefnogi dioddefwyr cam-drin domestig yn ystod y pandemig. Ynghyd â nifer o fferyllfeydd ledled y DU, rydym wedi cefnogi'r cynllun Mannau Diogel fel rhan o ymgyrch UK Says No More¹. Rydym hefyd wedi bod yn falch o gynghori ar gyflwyno potensial menter Byw Heb Ofn² Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio fferyllfeydd cymunedol i gyfeirio dioddefwyr cam-drin at gefnogaeth briodol.

Gwasanaethau Cyflenwi Meddyginiaethau

20. Ar 5 Mai, croesawom lansiad Llywodraeth Cymru o'r cynllun dosbarthu presgripsiynau gwirfoddol newydd i gefnogi'r rhai sy'n cysgodi. Rydym yn gwerthfawrogi'r gwaith caled a'r buddsoddiad i ddarparu'r gwasanaeth hwn sy'n ymddangos yn gynhwysfawr ac yn cynnwys mecanweithiau diogelwch ychwanegol fel gwiriadau DBS a defnyddio *Pro Delivery Manager*. Fodd bynnag, mae'r oedi rhwng anfon llythrau at y grwpiau cysgodi yn eu cynghori i drefnu danfon meddyginiaeth ddiwedd mis Mawrth a lansiad y cynllun ddechrau mis Mai wedi arwain at rai fferyllfeydd cymunedol yn buddsoddi'n rhagweithiol yn eu strategaethau eu hunain.
21. Mae gennym bryderon hefyd na rannwyd rhestrau o gleifion bregus yr oedd angen dosbarthu atynt â fferyllfeydd a benderfynodd beidio â chymryd rhan yn y cynllun. Mae hyn yn gosod disgwyliad ar gleifion i wneud eu hunain yn hysbys i'w fferyllfa gymunedol.
22. Bydd angen monitro gallu'r cynllun gwirfoddolwyr wrth i fwy o bobl ddychwelyd i'r gwaith ac wrth i fesurau clo gael eu llacio.

Argymhelliad 5: Rhaid sefydlu datrysiad cynaliadwy i ddarparu meddyginiaeth i bobl fregus sy'n parhau i ynysu pan fydd nifer y gwirfoddolwyr yn lleihau. Dylai'r datrysiad gynnwys cyflenwad o fferyllfeydd cymunedol ac ysbytai, sy'n parhau i gyflenwi meddyginiaethau hanfodol.

Hyfforddiant, Cymorth Iechyd Meddwl a Lles

23. Rydym yn hynod falch o gadernid y proffesiwn fferylliaeth wrth ymateb i'r pandemig COVID-19. Fodd bynnag, mae gennym bryderon ynghylch yr effaith uniongyrchol a thymor hwy ar iechyd meddwl a lles y proffesiwn o ymdopi â phwysau digynsail o'r fath. Dangosodd canlyniadau cychwynnol arolwg Cymdeithas Fferyllol Frenhinol o fferyllwyr a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr y llynedd fod 80% eisoes mewn perygl o orweithio³.
24. Mewn gohebiaeth â Llywodraeth Cymru rydym wedi pwysleisio pwysigrwydd sefydlu cefnogaeth emosiynol a lles i dimau fferylliaeth, gan gynnwys y timau hynny nad ydynt yn

¹ <https://uksaysnomore.org/safespaces/>

² <https://gov.wales/live-fear-free>

³ www.rpharms.com/about-us/news/details/Pharmacists-suffer-the-mental-health-consequences-of-workplace-pressure

cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y GIG. Gwnaed cynnydd da eisoes yn y maes hwn gan gynnwys:

- Datblygu porth ar y we at adnoddau lles gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW).
- Estyn y gwasanaeth blaenorol i feddygon yn unig, y gwasanaeth 'Cymorth i Weithwyr Proffesiynol Iechyd' i bob gweithiwr iechyd proffesiynol.

25. Bydd mynediad at adnoddau lles fel y rhain a chyfleoedd ar gyfer cefnogaeth emosiynol a seicolegol un i un yn parhau i fod yn bwysig yn ystod ac yn dilyn y pandemig. Dylai hyn ymestyn at fwy o gefnogaeth iechyd a lles galwedigaethol i'r holl weithwyr fferyllol proffesiynol yn unol â'r hyn a ddarperir ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol eraill y mae'r GIG yn cysylltu â hwy, gan gynnwys meddygon teulu a deintyddion.

26. Mae datblygiad proffesiynol wedi parhau i fod yn bwysig i'r proffesiwn fferyllol trwy gydol y pandemig. Mae'r pandemig wedi dangos ymhellach yr angen i ddatblygu gweithlu fferyllol y gellir ei addasu a hyblyg yng Nghymru a rhaid ei gefnogi gan fynediad at ddatblygiad proffesiynol cyson a sicrwydd ansawdd. Dylai hyn gael ei ategu gan ddatblygiad fframwaith gyrfaoel ôl-gofrestru cyffredin sy'n sicrhau y gall fferyllwyr ym mhob lleoliad arfer hyd eithaf eu haddysg a'u hyfforddiant.

Argymhelliad 7: Dylai gwasanaethau iechyd meddwl a lles y GIG barhau i fod ar gael i bob fferylllydd a phob grŵp gweithwyr iechyd proffesiynol yn y GIG ac sydd ar contract iddo.

Argymhelliad 8: Dylai amser addysg a hyfforddiant gwarchoddedig fod yn orfodol wrth gynllunio'r gweithlu ar gyfer pob fferylllydd.

Cynnal cyflenwad meddyginiaethau hanfodol

Prinder Meddyginiaethau

27. Rydym wedi clywed gan fferyllwyr sy'n pryderu am effaith hirdymor bosibl y pandemig ar weithgynhyrchu meddyginiaethau. Rydym yn ymwybodol bod y Llywodraeth yn monitro sut y gallai COVID-19 effeithio ar y gadwyn gyflenwi meddyginiaethau a byddem yn croesawu ymgysylltiad pellach â'r mater hwn.

28. Mae cynllunio wrth gefn yn hanfodol i liniaru ar effeithiau unrhyw waethygu i brinder meddyginiaethau oherwydd pandemig COVID-19. Dylai hyn ystyried cynlluniau hyblyg ar gyfer dychwelyd, aildddefnyddio a storio meddyginiaethau a'r posibilrwydd y bydd cyflenwi rhai meddyginiaethau yn dod yn fwyfwy anodd. Rydym yn croesawu Gwasanaeth Meddyginiaethau COVID-19 Diwedd Oes i gyflenwi Pecynnau Meddygaeth Frys 'Mewn Pryd'⁴ a chynghor ar aildddefnyddio meddyginiaethau diwedd oes mewn cartrefi gofal⁵.

29. Mae timau fferylliaeth ysbytai wedi chwarae rhan allweddol wrth gynnal cyflenwadau o feddyginiaethau gofal critigol a hylifau gwaedlif ar adegau o alw brig. Rydym yn deall bod cadwyn gyflenwi'r meddyginiaethau hyn yn fregus ledled y DU ac yn credu ei bod yn

⁴ <https://www.awttc.org/covid-19-eol-medicines-service>

⁵ <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-05/guidance-for-local-health-boards-and-nhs-trusts-on-the-reuse-of-end-of-life-medicines-in-hospices-and-care-homes.pdf>

hanfodol bod byrddau iechyd yn cydnabod ac yn mynd i'r afael â hyn wrth iddynt gynllunio ar gyfer gwasanaethau ar gyfer y pandemig yn ogystal â gwasanaethau arferol yn y dyfodol.

Grymuso Fferyllwyr i Reoli Prinder

30. Mae pwysau'r pandemig, ynghyd â'r prinder posibl o feddyginiaethau hanfodol, wedi atgyfnerthu pwysigrwydd galluogi fferyllwyr i reoli prinder meddyginiaethau. Cyn dechrau COVID-19, roedd Llywodraeth y DU eisoes yn adolygu effeithiolrwydd Protocolau Prinder Difrifol, y mae ein haelodau yn dweud wrthym eu bod yn rhy feichus hyd yn hyn. Rydym yn mynnu y dylid diwygio deddfwriaeth meddyginiaethau i ganiatáu i fferyllwyr ddefnyddio eu barn broffesiynol i wneud mân newidiadau i bresgripsiynau pe bai meddyginiaeth allan o stoc, megis: gwahanol feintiau, cryfderau, fformwleiddiadau neu fersiynau generig o'r un feddyginiaeth (amnewidiad generig).
31. Byddai newid yn y ddeddfwriaeth ar reoli meddyginiaethau yn arbed cleifion rhag gorfod mynd yn ôl at y rhagnodydd a lleihau llwyth gwaith meddygon teulu. Ar gyfer fferyllwyr mewn gofal eilaidd mae'r amnewidiadau hyn yn arfer safonol ac yn yr Alban, mae prosesau eisoes ar waith i ganiatáu i fferyllwyr wneud ymyriadau i ddelio â phrinder meddyginiaethau. Credwn ei bod yn bryd mynd i'r afael â'r anghydbwysedd hwn a gwella mynediad at feddyginiaethau trwy alluogi fferyllwyr cymunedol i wneud y newidiadau syml hyn. Mae ein cynigion i liniaru ar risgiau prinder meddyginiaethau wedi'u nodi yn ein safbwynt polisi ar brinder meddyginiaethau⁶.

Argymhelliad 9: Mae angen cefnogaeth Llywodraeth Cymru i symud newid deddfwriaethol ymlaen er mwyn cynyddu gallu fferyllwyr i ddefnyddio eu gwybodaeth glinigol a'u barn broffesiynol i reoli prinder meddyginiaethau yn fwy effeithlon.

Meddyginiaethau wedi'u paratoi ymlaen llaw

32. Gall gwaith i baratoi meddyginiaethau fel eu bod ar gael ac yn barod i'w defnyddio gan staff nyrsio a meddygol gofal dwys gymryd llawer o amser. Mae hyn yn arbennig o wir wrth ofalu am gleifion ar frig y galw ac wrth wisgo PPE. Byddai'n well defnyddio'r amser a gymerir i baratoi a thrin meddyginiaethau lluosog ar gyfer cleifion sy'n ddifrifol wael ar gyfer gofal uniongyrchol i gleifion.
33. Gyda gwasanaethau eraill y GIG wedi oedi oherwydd Covid-19, mae nifer o unedau aseptic fferyllfeydd ysbyty wedi ail-gyfeirio eu hamser i baratoi'r meddyginiaethau hyn i chwistrellau fel eu bod yn barod i'w rhoi. Mae cydweithwyr staff rheng flaen wedi croesawu hyn yn fawr. Fodd bynnag, bydd angen mwy o gapasiti i gynnal y gwasanaeth hwn ar y galw brig a phan fydd mwy o wasanaethau o ddydd i ddydd fel cemotherapi yn cael eu hailgychwyn. Rydym yn deall bod uned ganolog 'unwaith i Gymru' a gynhelir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn cael ei hystyried. Mae hwn yn ddatblygiad i'w groesawu'n fawr a dylai gael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru.

Argymhelliad 10: Dylid datblygu gwasanaeth ychwanegyn mewnwythiennol canolog (CIVAS) o feddyginiaethau parod yng Nghymru.

⁶ <https://www.rpharms.com/recognition/all-our-campaigns/policy-a-z/shortage-policy>

Cyflwyno gwasanaethau brechu

34. O ystyried eu hygyrchedd a'u profiad o roi brechiadau, mae fferyllwyr mewn sefyllfa dda i gefnogi brechu posibl yn erbyn COVID-19 yn ogystal â pharhau i gefnogi'r rhaglen brechu rhag y fflw tymhorol. Bydd cyflwyno rhaglenni brechu o'r fath yn gofyn am sicrwydd y gall gweithwyr iechyd proffesiynol weithio'n ddiogel a chael eu diogelu'n briodol. Byddem yn croesawu trafodaethau cynnar gyda Llywodraeth Cymru a GIG Cymru ar sut y gellid bwrw ymlaen â hyn.

Cynyddu cyflymder digido mewn gwasanaethau fferyllol

Presgripsiynu Electronig

35. Mae'r pandemig cyfredol wedi atgyfnerthu'r angen brys am systemau presgripsiynu electronig mewn gofal eilaidd a gofal sylfaenol. Mae systemau presgripsiynu electronig yn caniatáu i bresgripsiynau gael eu hanfon yn ddigidol i'w gweinyddu mewn fferyllfeydd cymunedol neu ganiatáu mynediad o bell o fewn amgylcheddau ysbytai, gan ddileu'r angen am bresgripsiynau papur, cynyddu effeithlonrwydd a gwella profiad y claf.
36. Mae'r systemau presgripsiynu electronig yn Lloegr, ac i ryw raddau yn yr Alban, wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol yn ystod y cyfnod hwn. Maen nhw wedi:
- sicrhau mynediad prydlon at feddyginiaeth i gleifion
 - osgoi problemau logistaidd
 - darparu data amser real ar ddefnyddio meddyginiaethau
 - gostwng risg o drosglwyddo heintiau trwy leihau nifer yr ymwelwyr a dileu'r defnydd o bapur.
37. Mae'r angen am system presgripsiynu electronig gadarn yng Nghymru wedi cael ei gydnabod ers cryn amser. Mae cynlluniau ar gyfer system ar gyfer gofal eilaidd wedi bod ar waith yng Nghymru ers dros ddegawd, ond nid yw system ar waith o hyd. Roedd hwn hefyd yn fater y tynnwyd sylw ato yn adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus 2018 ar Reoli Meddyginiaethau a nododd ei bryderon ynghylch yr angen i foderneiddio systemau presgripsiynu⁷.

Argymhelliad 11: Mae angen datblygu a chyflwyno presgripsiwn electronig yn genedlaethol mewn gofal eilaidd a gofal sylfaenol ar frys er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a diogelwch cleifion.

Ymgynghoriadau Fideo

38. Gan ymateb i'r anghenion cyfredol, ym mis Mawrth cyflwynodd Llywodraeth Cymru ddatrysiad ymgynghori fideo i bob Meddyg Teulu ledled Cymru. Rydym yn deall bod cynlluniau ar waith i ehangu'r gwasanaeth *Attend Anywhere* i ofal eilaidd a chymunedol. Byddem yn croesawu'r datblygiad hwn fel y gall cleifion barhau i elwa o'r gwasanaethau fferylliaeth gymunedol bresennol. Credwn hefyd y bydd y cam hwn yn fuddsoddiad tymor hir cadarnhaol a fydd yn bodloni nodau cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol fel yr amlinellir yn 'Cymru Iachach'

⁷ <https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld11478/cr-ld11478-e.pdf>

Argymhelliad 12: Dylid cefnogi datrysiadau ymgynghoriad fideo a'u cyflwyno i bob fferyllfa gymunedol yng Nghymru.

Digido ac integreiddio cofnodion iechyd a gofal

39. Mae'r pandemig wedi tynnu sylw at bwysigrwydd integreiddio a digido cofnodion iechyd a gofal yn llawn i wella effeithlonrwydd a diogelwch cleifion. Er ein bod wedi croesawu cyflwyno mynediad yn ddiweddar at wybodaeth am feddyginiaethau cleifion mewn sefyllfaoedd brys trwy'r Cofnod Meddygon Teulu Cymru i bob fferylllydd cymunedol, rydym yn mynnu bod dal angen cwblhau digido ac integreiddio cofnodion iechyd a gofal, gan gynnwys mynediad darllen ac ysgrifennu at gofnodion cleifion electronig a rennir.
40. Dadleuodd Adolygiad Topol fod angen hyn ar frys os yw buddion llawn meddygaeth ddigidol yn mynd i gael eu gwireddu ar gyfer y GIG, gan gynnwys diagnosis cynharach, gofal a thriniaeth wedi'i phersonoli⁸. Rydym yn llwyr gefnogi casgliadau Adolygiad Topol ac yn credu bod angen cymryd camau ar frys i yrru buddsoddiad tymor hir mewn technoleg i gefnogi gofal cleifion wrth symud ymlaen. Mae pandemig COVID-19 wedi pwysleisio'r angen i gyflawni'r uchelgeisiau hyn.

Argymhelliad 13: Gostwng risg o wallau meddyginiaeth a derbyniadau brys i'r ysbyty trwy ganiatáu i bob fferylllydd gael mynediad at gofnod cleifion electronig a rennir a'u diweddarau.

Hyderwn fod y materion hyn yn ddefnyddiol wrth dynnu sylw at brofiad y proffesiwn fferyllol trwy gydol y pandemig COVID-19 hyd yma. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i weithio'n adeiladol gyda'r Pwyllgor, Llywodraeth Cymru, GIG Cymru a rhanddeiliaid allweddol i leihau effaith COVID-19 ac i sicrhau y gellir cynnal a datblygu cyfraniad fferylliaeth at ofal cleifion wrth symud ymlaen. Mae croeso i chi gysylltu os bydd y Pwyllgor angen unrhyw wybodaeth bellach wrth i'r ymchwiliad pwysig hwn fynd rhagddo.

Yn gywir



Suzanne Scott-Thomas
Cadeirydd, Bwrdd Fferylliaeth RPS Cymru,



Elen Jones
Cyfarwyddwr RPS Cymru

⁸ topol.hee.nhs.uk/wp-content/uploads/HEE-Topol-Review-2019.pdf